

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

PDFArgraffuCyfeirnod

LLWYD (LLOYD), HARRI (bu farw 1799), pregethwr cynorthwyol Wesleaid

Enw: Harri Llwyd
Dyddiad marw: 1799
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr cynorthwyol Wesleaid
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Griffith Thomas Roberts

Erys manylion ei hanes cynnar o hyd yn ddirgelwch. Dywaid iddo gael ei argyhoeddi o bechod dan weinidogaeth Dafydd Jones (nai **Griffith Jones**, Llanddowror?) yng nghapel anwes Llanlluan; dyfnhawyd yr argyhoeddiad gan bregethu **Howel Harris**, a daeth i'r goleuni llawn tua mis Awst 1743 - un o'r ychydig ddyddiadau gweddol sicr yn ei hanes cynnar. Bu'n pregethu'n gynorthwyol gyda'r Wesleaid o tua 1746 hyd ei farw yn 1799. Er bod sôn amdano'n pregethu yng Nghernyw unwaith, cyfyngodd ei wasanaeth gan mwyaf i seiadau Wesleaid Deheudir Cymru; enwir ef yng nghofnodion cynhadledd 1747 ymysg y rhai ' that assist us only in one place.' Yn 1779 dywaid Wesley na fwriadwyd iddo fod yn weinidog sefydlog yn unman: ' he is only permitted to preach up and down, chiefly in Welsh, at the discretion of the Assistant.' Daliodd yn gyfeillgar â **Howel Harris** ar hyd ei oes, a bu'n pregethu yn Nhrefeca yn 1771 a 1772. Ysgrifennodd *Profiad Tufewnol o Nefoedd ac Uffern*, 1750; *Hymnau ar Amryw Ystyriaethau*, 1752; *Pregeth ar Farwolaeth Parchedig G. Whitefield ... gan J. Wesley* (cyf. Llwyd, 1771); *Marwnad ... Howell Harris*, 1773.

Awdur

Y Parchedig Griffith Thomas Roberts , (1887 - 1977)

Ffynonellau

- Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd.*, xxix, 81-93
- A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism, 1800-1858 its origins, growth and secessions* (1935) (mynegai) ac yn *Er Clod Saith Bennod ar Hanes Methodistiaeth yng Nghymru* (gol. T. Richards), 19-21
- John Wesley, *The letters of the Rev. John Wesley* (1931), vi, 359; viii, 134
- Proceedings of the Wesley Historical Society*, Rhif 1, 49

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733845

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDFArgraffuCyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Roberts, G. T., (1953). LLWYD (LLOYD), HARRI (bu farw 1799), pregethwr cynorthwyol Wesleaid. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLWY-HAR-1799>

Grannu

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government